# Sesiynau gwybodaeth gweminar a Diwrnodau Agored

Bydd Tîm Ymgysylltu a Phartneriaid Cyflwyno Cronfa Treftadaeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Earthwatch, yn cynnal tair gweminar/sesiwn wybodaeth ar-lein a dau Ddiwrnod Agored ar safleoedd Coetiroedd Bach.

Cynhelir y sesiynau gwybodaeth a'r Diwrnodau Agored hyn er mwyn i ddarpar ymgeiswyr ddod draw i ofyn unrhyw gwestiynau i'r Gronfa Treftadaeth, Swyddogion Cyswllt y Goedwig Genedlaethol ac Earthwatch (bydd Wardeniaid Coed hefyd ar gael i rannu eu profiadau). Cynhelir y rhain ar y dyddiadau canlynol (amserau i'w cadarnhau):

### Gweminarau:

- Dydd Mawrth 5 Mawrth 10am - 12pm. Cofrestrwch ar gyfer y weminar hon trwy Teams.
- Dydd Llun, 18 Mawrth 12pm - 2pm. Cofrestrwch ar gyfer y weminar hon trwy Teams.
- Dydd Mercher 10 Ebrill, 4pm - 6pm. Cofrestrwch ar gyfer y weminar hon trwy Teams.

### Diwrnodau Agored:

- 12 Mawrth, 10.30am-12.30pm yn y Coetir Bach, Parc Tref Caergybi. Cofrestrwch ar gyfer y diwrnod agored hwn.
- 21 Mawrth, 10.30am-12.30pm yn y Coetir Bach, Parc Pencoedtre, Y Barri. Cofrestrwch ar gyfer y diwrnod agored hwn.

Expand All accordions

# Pa brosiectau allwch chi wneud cais amdanyn nhw?

### Mae'n rhaid i'ch prosiect gynnwys y nodweddion canlynol:

1. creu Coetir Bach (Tiny Forest) sy'n bodloni'n llawn meini prawf Coetiroedd Bach (gweler adran 'Beth yw Coetiroedd Bach' y canllawiau hyn).
2. Cyflwyno coetiroedd hygyrch i bawb eu mwynhau. Dylai'r Coetir Bach fod yn hygyrch i'r gymuned y mae wedi'i leoli ynddi. Mae croeso i ysgolion wneud cais. Maent wedi cael eu cefnogi mewn rowndiau blaenorol ond mae angen iddynt ddangos sut y maent yn cynnwys y gymuned yn weithredol ac yn ei galluogi i gyrchu'r coetir trwy weithgareddau penodol.
3. cynnwys trigolion lleol, gwirfoddolwyr, awdurdodau lleol neu ysgolion
4. cynnal y Coetir Bach gan ddefnyddio "tîm o geidwaid coed", sef gwirfoddolwyr am o leiaf 2 flynedd ar ôl i'r prosiect orffen
5. diwallu anghenion pobl leol fel man cyhoeddus a chyfrannu at wasanaethau ecosystemau yn yr ardal leol.
6. dangos buddion lluosog sy'n cwmpasu llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol

